Inspecting policing in the public interest

# Pennu Gwerth yr Heddlu: Adolygiad o Barodrwydd

Heddlu Gogledd Cymru
Gorffennaf 2011

# Diben yr adolygiad

Mae Gwasanaeth yr Heddlu, ynghyd â phob rhan arall o'r sector cyhoeddus, yn wynebu ei her ariannol fwyaf ers cenhedlaeth. Gellid ystyried naill ai bod hwn yn gyfle i arloesi ac adfywio – neu'n rheswm i barhau fel y mae pethau a gweld y gwasanaethau'n torri'n ôl.

Bu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn ymwneud yn helaeth â monitro ymateb y Gwasanaeth a'i barodrwydd am gwtogi ar droseddu a lleihau costau ar yr un pryd. Yn rhan o hyn, aethom ati yng Ngwanwyn 2011 i arolygu pob un o'r 43 o heddluoedd ac awdurdodau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn asesu:

- sut maent yn bwriadu ateb yr her ariannol; a
- beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth a ddarparant i'r cyhoedd.

Yn yr adroddiad hwn, crynhoir y canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Mae adroddiad thematig, *Adapting to Austerity*, sy'n cyfuno canfyddiadau'r 43 o heddluoedd i gyd, ar gael hefyd o www.hmic.gov.uk.

# Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

## Beth yw'r her ariannol yn Gogledd Cymru?

Mae Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn adrodd eu bod yn wynebu gostyngiad arian parod o £ 14.7m at eu cyllideb dros bedair blynedd y cyfnod adolygiad cynhwysfawr o wariant (2011/12-14/15). Mewn termau real (hy pan mae chwyddiant yn cael ei ystyried), mae hyn yn cyfateb i 8 y cant o'u gwariant refeniw gros.

## A yw'r heddlu a'r awdurdod yn barod i ateb yr her ariannol hon?

Roedd yn amlwg bod yr heddlu a'r awdurdod yn deall cymaint o her sy'n eu hwynebu, a'u bod wedi ystyried amryw ddewisiadau wrth ddatblygu cynllun i fynd i'r afael â'r her honno.

Adeg yr arolygiad, roedd llawer o waith wedi'i wneud eisoes. Mae'r heddlu a'r awdurdod wedi disgrifio cynlluniau sydd ar waith i wneud arbedion yn ystod 2011/12 a 2012/13, ac maent wedi cyllidebu i gyflawni'r holl arbedion gofynnol.

Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys clustog ariannol, a gynlluniwyd i lyncu unrhyw gostau annisgwyl neu unrhyw lithriant wrth weithredu. Roedd amserlenni a cherrig milltir clir a chyfiawn, wedi'u cefnogi gan ddadansoddiad da (er enghraifft, o'r cyswllt rhwng newidiadau i niferoedd y gweithlu ac arbedion arian gwirioneddol). Roedd strwythurau llywodraethu clir yn eu lle i oruchwylio cynnydd.

## Beth fydd yr effaith ar nifer staff a swyddogion yr heddlu?

Roedd Heddlu Gogledd Cymru'n bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i niferoedd ei weithlu.

| | Swyddogion yr Heddlu | Staff yr Heddlu | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2010 (gwirioneddol)** | 1,590 | 921 | 157 |
| **31 Mawrth 2015 (arfaethedig)** | 1,383 | 902 | 160 |

Ffigurau mis Mawrth 2010 a ddefnyddiwyd yn fan cychwyn, gan fod rhan fwyaf o wasanaethau heddlu wedi dechrau rhewi recriwtio yn y flwyddyn honno, a niferoedd y gweithlu wedi dechrau gostwng o ganlyniad. Cafodd y ffigurau arfaethedig a ddangosir ar gyfer Mawrth 2015 eu darparu i HMIC gan yr heddlu ym mis Mehefin 2011.

Bydd cynlluniau'r heddlu a'r awdurdod ar gyfer y gweithlu yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r rhaglen newid fynd yn ei blaen.

## Beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth i'r cyhoedd?

Mae'r heddlu a'r awdurdod wedi nodi pa newidiadau yn y cynllun a allai gael effaith ar y gwasanaeth a ddarparant i'w cymuned, ac maent wedi gweithio i sicrhau bod yr effaith hon yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.

Maent wedi sicrhau bod cyfathrebu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn rhan annatod o'r rhaglen newid. Mae ymgynghoriad cyhoeddus lleol wedi digwydd ac mae tystiolaeth bod hwn wedi helpu i ffurfio cynnwys y cynllun.

## A oes gan yr heddlu dargedau i gwtogi ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Tasg gyntaf yr heddlu yw cwtogi ar droseddu a chadw'r heddwch; yn 2010, dywedodd Theresa May, yr Ysgrifennydd Cartref, ei bod yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol ond parhau i gwtogi ar droseddu a hynny heb niweidio'r rheng flaen.

Mae *Cynllun Plismona* Gogledd Cymru'n cynnwys amcanion i gwtogi ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y flwyddyn i ddod.

© HMIC 2011
ISBN: 978-1-84987-542-4
www.hmic.gov.uk